**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1572
Ein cyf HIDCC/00019/26

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

26 Ionawr 2026

Annwyl Carolyn,

Diolch am ofyn ein barn ar Ddeiseb P-06-1572 ynglŷn â llifogydd ar y B4318 ac ar draws dalgylch ehangach Dinbych-y-pysgod.

Rydym yn cydnabod yr aflonyddwch y mae llifogydd yn ei achosi yn yr ardal hon, a'r pryderon a godwyd ynghylch dŵr ffo dŵr wyneb, lefelau uchel afonydd a chloi llanwol yn Nhraeth y De. Mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar berygl llifogydd yma gan gynnwys capasiti afonydd, draenio lleol a gollyngiad arfordirol. Rhennir cyfrifoldebau rhwng yr Awdurdodau Rheoli Perygl (RMAs) perthnasol fel a ganlyn:

- Cyngor Sir Penfro: y briffordd a'r cyrsiau dŵr i fyny'r afon
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC): y cwrs dŵr i lawr yr afon o'r bont briffordd

Mae Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM) Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cyflawni'r gostyngiad mwyaf o ran perygl i gartrefi a busnesau. Gan fod llifogydd yn y lleoliad hwn yn effeithio ar drafnidiaeth yn bennaf yn hytrach nag ar eiddo preswyl neu fasnachol, nid yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyllid cyfalaf FCERM ar hyn o bryd.

Mae'r Awdurdodau Rheoli Perygl, awdurdodau lleol a CNC, yn gyfrifol am ddatblygu cynlluniau rheoli perygl llifogydd yn unol â'r Strategaeth FCERM Genedlaethol, sy'n pennu mai lleihau perygl i fywyd yw'r flaenoriaeth fwyaf.

Ar hyn o bryd mae CNC yn cynnal arfarniad manwl o opsiynau rheoli perygl llifogydd yn y dyfodol ar gyfer dalgylch Afon Ritec. Mae hyn yn cynnwys asesu perygl llifogydd afonol ac effaith y llanw. Mae rhestr fer o opsiynau yn cael ei datblygu, gyda disgwyl Achos Busnes Amlinellol yn haf 2026.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae CNC yn cydnabod y rhyngweithio rhwng dŵr wyneb, draenio priffyrdd ac Afon Ritec, a bydd angen i bob Awdurdod Rheoli Perygl gydweithio i ddatblygu datrysiad hirdymor-. Er bod CNC yn gobeithio y bydd unrhyw waith y maent yn ei gyflawni yn helpu i leihau'r perygl o lifogydd i'r gymuned, mae perygl llifogydd o ran y briffordd a dŵr wyneb ehangach yn fater i'w ystyried gan Awdurdodau Rheoli Perygl eraill.

Os byddai gweithredu ar y rhwydwaith priffyrdd yn lliniaru neu'n datrys y broblem, yna gallai Cyngor Sir Penfro ystyried hyn fel yr Awdurdod Priffyrdd perthnasol. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau trafnidiaeth penodol i Awdurdodau Lleol, ac mae llawer ohonynt yn cael eu coladu mewn un Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2026/27 i gyd-fynd â chyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a gynhyrchwyd gan Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r lleoliad hwn fel rhan o waith cynllunio ehangach i addasu i'r hinsawdd. Os bydd y perygl i gartrefi a busnesau yn cynyddu, bydd ei gymhwysedd ar gyfer cyllid FCERM yn cael ei ailystyried.

Diolch ichi am ysgrifennu ataf ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch y mater pwysig hwn. Gobeithio y bydd yr ateb hwn o gymorth ichi.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig